# Castell-Nedd Port Talbot

## Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

NEATH PORT TALBOT
PUBLIC SERVICES BOARD

Ebrill 2024–2029

# CYNNWYS


| | TUDALEN |
|---|---|
| **NEGES GAN Y CYFARWYDDWR ADDYSG, HAMDDEN A DYSGU GYDOL OES** | **4** |
| **PAM MAE ANGEN CYNLLUN PLANT A PHOBL IFANC ARNOM** | **6** |
| **CYD-WELEDIGAETH A BLAENORIAETHAU** | **10** |
| **SUT Y CAFODD Y CYNLLUN HWN EI DDATLBYGU** | **12** |
| **PLANT A PHOBL IFANC CASTELL-NEDD PORT TALBOT** | **20** |
| **EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER Y PUM MLYNEDD NESAF** | **27** |
| BLAENORIAETH 1 | **28** |
| BLAENORIAETH 2 | **30** |
| BLAENORIAETH 3 | **32** |
| BLAENORIAETH 4 | **34** |
| BLAENORIAETH 5 | **36** |
| **SUT Y BYDDWN YN GWYBOD EIN BOD YN CAEL EFFAITH** | **38** |
| **ATODIADAU** | **40** |

Adran 1

# NEGES GAN Y CYFARWYDDWR ADDYSG, HAMDDEN A DYSGU GYDOL OES



**Mae plant a phobl ifanc ledled Castell-nedd Port Talbot yn abl, yn dosturiol ac yn uchelgeisiol ynghylch eu bywydau i'r dyfodol. Mae eu brwdfrydedd a'u cymhelliant yn amlwg bob dydd ac rwy'n falch o'u cyflawniadau a'r cynnydd y maent yn ei wneud yn ein hysgolion, mewn lleoliadau addysgol ehangach ac yn ein cymunedau. Maen nhw wedi dangos dycnwch anhygoel yn ystod ac ar ôl y pandemig, gan addasu i ffyrdd newydd o fyw a dysgu mewn cymdeithas sy'n newid yn barhaus. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod hyn oll wedi effeithio ar gyfleoedd plant a phobl ifanc i ddatblygu a dysgu. Rydyn ni eisiau i'n plant a'n pobl ifanc fyw bywydau llawn ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl blant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.**

Bwriedir y Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2024-2029 newydd hwn ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc 0-25 oed sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Cafodd y cynllun ei lunio drwy ymgysylltu ac ymgynghori â phlant, pobl ifanc a theuluoedd Castell-nedd Port Talbot a'r sefydliadau partner yng Ngrŵp Arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot. Mae'n datgan blaenoriaethau ac uchelgeisiau'r bartneriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'n darparu fframwaith clir ar gyfer cydweithio er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ein plant a'n pobl ifanc i ffynnu a llwyddo. Rydyn ni'n gwybod y bydd gweithio mewn partneriaeth yn ein helpu ni oll i roi sylw i'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu a sicrhau canlyniadau gwell i'n plant, ein pobl ifanc a'n teuluoedd. Rwy'n ddiolchgar i'r holl blant, y bobl ifanc, y teuluoedd a'r partneriaid sydd wedi ein helpu i lunio'r cynllun hwn. Er mwyn sicrhau ei lwyddiant, byddwn yn gofyn ichi gyfranogi eto.

**ANDREW THOMAS**

**Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes Cyngor Castell-nedd Port Talbot**



Adran 2

# PAM MAE ANGEN CYNLLUN PLANT A PHOBL IFANC ARNOM

**Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn dangos sut y byddwn yn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae'n dangos sut y byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ac yn amlinellu'r hyn mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc am ei gyflawni yn ystod y 5 mlynedd nesaf.**

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn buom yn gwrando ar blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Buom yn siarad â'r bobl sy'n gweithio â hwy ac yn eu helpu, a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau am y gwasanaethau rydym yn eu darparu. Ar sail y sgyrsiau hyn datblygwyd cydweledigaeth sy'n ymdrechu i wneud...

**"Castell-nedd Port Talbot yn rhywle lle bydd pob plentyn a pherson ifanc, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, yn rhan o gymuned a fydd yn diwallu eu hanghenion ac yn eu cynorthwyo i ffynnu mewn ffordd sy'n gweithio orau iddynt hwy".**

Mae cydweledigaeth yn rhoi dealltwriaeth glir inni o'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni. Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno ein blaenoriaethau am y 5 mlynedd nesaf ac mae'n dangos sut y byddwn yn monitro effaith yr hyn rydym yn ei wneud.

Yn ein digwyddiadau ymgysylltu buom yn siarad â phobl am y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r materion pwysig hyn wedi'u hadlewyrchu ym mhob blaenoriaeth sy'n ffurfio'r cynllun hwn.



## Pwy fydd yn Gyfrifol am Gyflawni'r Cynllun?

Nod Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot 2023-28 yw 'sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd', mae'r cynllun hwn yn egluro sut cyrhaeddir y nod hwnnw. Mae strwythur Llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi i'r Grŵp Arwain Plant a Phobl Ifanc y cyfrifoldeb dros y 'dechrau gorau mewn bywyd' a byddant yn gyfrifol am gyflawni newid a monitro effaith y cynllun hwn. Byddwn yn llunio diweddariad ar y cynnydd, ac yn parhau i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn ymrwymo i edrych ar ffyrdd o weithio gyda phobl ifanc yn uniongyrchol er mwyn gwerthuso effaith y cynllun hwn. Caiff y cynllun ei adolygu'n barhaus.

## Sut mae'r Cynllun Hwn yn Berthnasol i Strategaethau Eraill?

Bydd y cynllun hwn yn effeithio ar amrywiaeth o strategaethau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac mae wedi cael ei lywio ganddynt. Bydd y strategaethau hyn hefyd yn llywio gwaith y Grŵp Arwain Plant a Phobl Ifanc. Caiff hyn ei adolygu'n barhaus gydol oes y cynllun. Mae'r diagram canlynol yn crynhoi'r cyd-destun hwn adeg ei gyhoeddi.

Adran 2

# PAM MAE ANGEN CYNLLUN PLANT A PHOBL IFANC ARNOM



## Cynlluniau a Strategaethau Trawsbynciol

**CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN**

**CENEDLAETHOL**

- Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru
- **Cymru Gryfach, Gwyrddach, Decach: Cynllun ar gyfer Cyflogadwyedd**
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru
- **Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar Llywodraeth Cymru**
- Rhaglen Plant Iach Cymru

- Cwricwlwm i Gymru
- Ysgolion Bro
- Fframwaith Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid
- **Cod a Deddf y Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol**
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Llesiant
- **Strategaeth Chwaraeon Cymru**
- **Pwysau Iach: Strategaeth Cymru Iach**
- Fframwaith Nyth (Rhoi Nerth, Ymddiried, Tyfu'n Ddiogel a Hybu)

**Rhaglen waith Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru (Bil Addysg y Gymraeg)**

## CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

### RHANBARTHOL

- Dyfodol Gwell i Bawb: Strategaeth Iechyd y Boblogaeth ar gyfer Bae Abertawe
- Cynllun Adfer a Chynaliadwyedd 2024/25 Gwasanaethau Plant Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Egwyddorion Strategol Blynyddoedd Cynnar Bwrdd I echyd Prifysgol Bae Abertawe
- Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru
- Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

### LLEOL

- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot 2023-2028
- Strategaeth Ddiwylliant Castell-nedd Port Talbot
- Cynllun Cydraddoldeb Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2020-2024
- Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot
- Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant
- Asesiad Digonolrwydd Chwarae
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2022-2027
- Strategaeth Ymgysylltu ag Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot
- Cynllun Strategol Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc 2023-26
- Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau Castell-nedd Port Talbot
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

Adran 3

# CYD-WELEDIGAETH A BLAENORIAETHAU

**Bydd Castell-nedd Port Talbot yn fan lle bydd pob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, yn rhan o gymuned sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu cefnogi i ffynnu yn y ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw.**

## EIN BLAENORIAETHAU AM Y PUM MLYNEDD NESAF FYDD:

**BLAENORIAETH 1.**
Helpu ein plant ieuengaf i fod yn iach ac yn barod i ddysgu.

**BLAENORIAETH 2.**
Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn gallu cael yr help cywir ar yr adeg gywir gyda chanlyniadau positif.

**BLAENORIAETH 3.**
Mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at addysg sy'n eu hysbrydoli i ddysgu a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol.

**BLAENORIAETH 4.**
Mae lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed, ac maent yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu.

**BLAENORIAETH 5.**
Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cefnogaeth i helpu eu hunain i fod yn gorfforol iach ac i deimlo'n gryf yn feddyliol ac emosiynol.



**Ni all mudiadau sy'n gweithio ar eu pen eu hunain gyflawni'r newid sydd ei angen ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Rydym yn ymrwymo i weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau y rhoddwn flaenoriaeth iddynt drwy wneud y canlynol:**

Cynorthwyo a grymuso teuluoedd i fod yn fwy cydnerth a galluog.

Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar anghenion i sicrhau bod cymorth yn deg a hygyrch.

Cydweithio â'r holl randdeiliaid i sicrhau dull cymunedol sy'n galluogi gweithio ar y cyd, sy'n osgoi dyblygu ac sy'n gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael.

Mabwysiadu dull tymor hir, sy'n rhoi pwyslais ar ganlyniadau, gan ddefnyddio data a gwerthuso i ddysgu a gwella.

Gwerthfawrogi a datblygu ein gweithlu, gan sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i weithio â'n plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.



Adran 4

# SUT Y CAFODD Y CYNLLUN HWN EI DDATLBYGU

**Mae hwn yn gynllun ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd angen inni ddysgu drwy eu profiadau hwy, deall eu blaenoriaethau a siarad â hwy am yr hyn roeddent yn credu y gellid ei wneud yn well.**

**Roedd ein dull ymgysylltu'n cynnwys:**

- Sgyrsiau â dros 200 o blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ymgymerwyd â rhaglen o grwpiau ffocws, sgyrsiau un-i-un a sesiynau gweithdy mewn ysgolion a cholegau i glywed beth mae plant a phobl ifanc yn ei gredu sy'n bwysig i gael bywyd da. Buom yn siarad â hwy hefyd am eu syniadau i wella gwasanaethau a chymorth. Gwnaethom yn siŵr ein bod yn siarad â phlant a phobl ifanc o grwpiau anodd eu cyrraedd gan gynnwys plant â phrofiad o ofal, gofalwyr ifanc, pobl ifanc LHDTC+, plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol a phobl ifanc sy'n byw mewn llety â chymorth.



- Sgyrsiau gyda dros 75 o rieni a gofalwyr am eu dyheadau ar gyfer eu plant, eu profiadau o gefnogaeth a'u syniadau ynglŷn â beth gellid ei wneud yn well. Unwaith eto, fe wnaethom dreulio amser yn siarad â grwpiau mwy anodd eu cyrraedd gan gynnwys teuluoedd sydd â phrofiad o drais domestig, rhieni a gofalwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a rhieni a gofalwyr sydd â salwch meddwl.

- Adolygu'r cysylltiad blaenorol helaeth gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd a oedd wedi cyfrannu at gynlluniau eraill, er enghraifft Let's Keep Talking, Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot, Astudiaeth Les y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Strategaeth Ymgysylltu ag Ieuenctid, Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau, Llais Disgyblion, Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

- Ymgymerwyd â rhaglen o 8 gweithdy lle buom yn gwrando ar y bobl sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc Castell-nedd Port Talbot, ac sy'n gwneud y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys pobl o'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, y Trydydd Sector a Phenaethiaid Ysgolion. Roedd y sesiynau gweithdy hyn yn rhoi pwyslais ar ddod â rhanddeiliaid ynghyd i ddeall yr heriau mae ein plant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Buom hefyd yn edrych ar ddyheadau ar gyfer y dyfodol, y rhwystrau rhag gweithredu newid, a chanfod lle gallai'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, a'r cynllun hwn, gael mwyaf o effaith.

Roedd yn bwysig bod plant, pobl ifanc a'u rhieni a gofalwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn gallu siarad yn onest wrth weithio â ni. Felly aethpwyd ati i gynllunio gweithgareddau a fyddai'n addas i sut yr hoffai pob grŵp ymgysylltu.



# YR HYN A GLYWSOM GAN BLANT A PHOBL IFANC

**Roedd themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein sgyrsiau â phlant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant emosiynol, effaith yr argyfwng costau byw ar blant a phobl ifanc, dewisiadau mewn addysg, cymorth i rieni a gofalwyr, a sut y gallwn wneud yn siŵr fod pobl sydd angen mwy o help yn ei gael.**

Eglurodd plant a phobl ifanc o bob rhan o Gastell-nedd Port Talbot fod eu hiechyd meddwl yn gallu bod yn rhwystr rhag cymryd rhan mewn addysg mewn ffordd ystyrlon, gan effeithio ar eu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau, yn eu hatal rhag mwynhau chwarae, a dywedwyd ei fod yn gallu effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau. Roeddent yn credu bod angen gwneud mwy, ac yn gynharach, i helpu plant a phobl ifanc sy'n ceisio ymgodymu â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. Bu plant a phobl ifanc yn siarad am eu profiadau o'r argyfwng costau byw; roedd hyn yn cynnwys teuluoedd yn defnyddio banciau bwyd, cael trafferth fforddio cludiant i'r coleg, a gorfod cwtogi ar hamdden. Bu pobl ifanc yn sôn wrthym am bwysigrwydd cael dewisiadau yn eu haddysg, a'r hyn maent am ei wneud ar ôl eu haddysg a hyfforddiant. Buont yn dweud wrthym am fyr awydd i deimlo y gallant wneud dewis, ac er bod pawb eisiau dysgu nid yw pawb yn gallu dysgu yn



yr un ffordd. Roedd rhai plant a phobl ifanc yn teimlo y byddai eu rhieni a gofalwyr yn elwa ar fwy o help i'w galluogi i fod y rhieni yr hoffent fod. Roedd tegwch yn bwysig i'r plant a phobl ifanc buom yn siarad â hwy; maent yn awyddus i'r cynllun hwn gydnabod bod angen mwy o help ar rai pobl nag eraill, a hynny am bob math o resymau.

*"Mae dyddiau llesiant yn teimlo fel nad ydych yn sylweddoli pa mor gymhleth yw ein hanghenion iechyd meddwl."*

**Help i blant a phobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a llesiant emosiynol oedd y flaenoriaeth a fynegwyd amlaf, ac wedyn cynnig dewisiadau mewn addysg a gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael yr help sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen.**

*"Mae angen cymwysterau da arnoch i gael swydd dda, ond nid yw pawb yn hoffi ysgol felly lle arall allan nhw wneud eu harholiadau?"*

*"Mae rhai pethau ddylai fod yn gyfartal – er enghraifft dylai pob ysgol fod â chynghorydd gyrfaoedd a nyrs ysgol. Ond dylai'r help fod yn ateb anghenion yr unigolyn hwnnw, ac mae angen mwy o help ar rai pobl."*

*"Mae angen mwy o help ar rai pobl yn fod yn rhieni."*



Adran 4

# YR HYN A GLYWSOM GAN RIENI A GOFALWYR

**Fel gyda phlant a phobl ifanc, roedd help ar gyfer iechyd meddwl a llesiant emosiynol yn flaenoriaeth i rieni a gofalwyr. Maent am fod yn siŵr y gall eu plant gael yr help sydd ei angen arnynt a gwybod pa ffordd sydd orau i'w helpu. Roeddent yn arbennig o bryderus am y trothwyon uchel sy'n rhaid eu cyrraedd i gael cymorth iechyd meddwl.**

Roedd costau byw, a'r effaith ar deuluoedd, yn achos pryder mawr o ran yr heriau maent yn eu hwynebu a'u heffaith ar eu teuluoedd. Roeddent i gyd yn sôn am eu dymuniad i weld eu plant yn hapus, yn iach ac yn teimlo'n ddiogel. Maent am i'w plant a phobl ifanc fanteisio ar bob cyfle, ac "gwneud yn well na ni".

Roedd pryderon rhieni a gofalwyr yn ymwneud â pha mor anodd mae hi'n gallu bod i ofyn am help a phoeni am gael eu beirniadu neu deimlo cywilydd wrth ofyn am help. Roedd rhai rhieni a gofalwyr wedi profi rhwystrau eraill a oedd wedi eu hatal rhag cael help, er enghraifft, trafnidiaeth ac argaeledd sesiynau cymorth a oedd yn ystyried eu horiau weithio.

**Gwybod pa help sydd ar gael, sut i gael gafael ar help, a sicrhau bod cymorth yn deg yw'r flaenoriaeth i rieni a gofalwyr. Maent hefyd am i'w plant fod yn gryf yn feddyliol ac emosiynol. Mae diwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol, a phlant agored i niwed, yn flaenoriaeth.**

*“Nid wyf yn byw mewn ardal Dechrau’n Deg, ond gan fy mod wedi profi cam-drin domestig, rwyf wedi gallu manteisio arno. Mae wedi gwneud byd o wahaniaeth imi a fy merch fach. Mae wedi fy helpu i fod yn fam well iddi.”*

*“Mae ar y rhestr aros ar gyfer CAMHS (gwasanaethau iechyd meddwl plant a’r glasoed), ond beth allwn ni ei wneud yn y cyfamser? Beth allwn ni ei wneud i’w helpu gartref?”*

*Mae Dechrau’n Deg wedi bod yn wych i’r rhai ieuengaf, ac i minnau. Rwy’n credu y dylai fod ar gael i bawb.”*



*“Mae’n anodd bod yn rhiant, weithiau mae angen rhywun i roi cyngor i chi ond wyddoch chi ddim at bwy i droi na lle i ddechrau.”*

Adran 4

# YMGYSYLLTU EHANGACH Â PHARTNERIAID

**Ymgymerwyd â rhaglen o weithdai â rhanddeiliaid i ddeall ac i edrych ar farn partneriaid ar yr hyn ddylai gael blaenoriaeth i wneud gwahaniaeth i fywydau ein plant a phobl ifanc. Blaenoriaeth amlwg i randdeiliaid yw sicrhau tegwch o ran cymorth, mabwysiadu dull sy'n cydnabod y bydd ar rai plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd angen mwy o help nag eraill. Hefyd, roedd rhanddeiliaid yn awyddus i'r strategaeth ystyried sut y gallwn feithrin cydnerthedd yn ein teuluoedd, gan roi'r cryfder a'r sgiliau iddynt i ddiwallu heriau bywyd mewn ffordd bositif.**

Yn ogystal, roedd ar y rhanddeiliaid eisiau i'r cynllun hwn feddwl am sut gallwn ni feithrin gwytnwch yn ein teuluoedd, gan roi iddynt y cryfder a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ateb heriau bywyd mewn ffordd gadarnhaol.

Drwyddi draw credwyd bod plant a phobl ifanc yn dal i ddioddef effaith barhaol pandemig COVID-19, ac effaith barhaus yr argyfwng costau byw, a bod angen gwneud mwy i ddeall a lliniaru'r effaith hon. Roedd teimlad cyffredinol fod plant a phobl ifanc yn profi effaith olaf y pandemig COVID-19, a bod angen gwneud mwy i ddeall a lliniaru'r effaith hon. Fel yn achos pobl ifanc, tynnwyd sylw at angen rhieni a gofalwyr am gymorth iechyd meddwl a llesiant emosiynol, ac roedd rhanddeiliaid wedi gosod hyn yng nghyd-destun dulliau strategol, er enghraifft y Cwricwlwm i Gymru a'r Fframwaith NYTH (Rhoi Nerth, Ymddiried, Tyfu'n Ddiogel a Hybu). Roedd y rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy'n gwerthfawrogi'r cyfle sy'n codi yn sgil y cynllun hwn, i gydlynu gwasanaethau, a chymorth i ddiwallu anghenion ac i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau. Roedd sicrhau ein bod yn cadw, yn datblygu ac yn uwchsgilio'r gweithlu hefyd yn flaenoriaeth i randdeiliaid. Mae'r gweithlu blynyddoedd cynnar, plant a phobl ifanc yn hanfodol i ddiwallu anghenion ein plant a phobl ifanc.



**Mae gwasanaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i ddiwallu anghenion ein plant a phobl ifanc. Mae rhanddeiliaid o'r farn y bydd cydweithredu'n arwain at wneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn sicrhau cymorth sy'n deg i bawb.**

*"Pan fydd gwasanaethau'n gweithio â'i gilydd, mi allwn greu cymunedau sy'n ddiogel a gofalgar."*

*"Mae galluogi plant a phobl ifanc i dyfu'n hapus ac iach yn rhywbeth a ddylai fod yn bwysig i bawb."*

*"Heb wasanaethau sy'n gweithio'n gydlynus byddant yn anghyson ac yn tanseilio ei gilydd."*

*"Mae gwella ansawdd ein cymorth yn golygu cadw ein gweithlu a buddsoddi ynddo."*


*"Mae angen inni fanteisio ar y cyfleoedd mae'r Fframwaith NYTH, y dull ysgol gyfan tuag at iechyd meddwl a llesiant a strategaethau eraill yn eu cynnig inni i hybu llesiant emosiynol ein plant a phobl ifanc yn well."*

*"Dylai pawb gael yr un mynediad at wasanaethau, yn seiliedig ar angen ac nid codau post."*

# PLANT A PHOBL IFANC CASTELL-NEDD PORT TALBOT

## Ein Poblogaeth Plant a phobl ifanc.


**Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym am y plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot a sut maent yn dod ymlaen?**



**0 – 25 OED YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**MAE 41,508**

**o bobl yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot**




**o'r boblogaeth leol**


**Mae 52% yn ddynion**

**Mae 48% yn fenywod**


(Ffynhonnell y data: Cyfrifiad 2021)

(Ffynhonnell y data: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023 a Stat Xplore: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog 2022/2023)

**Mae 8,594** o blant yn eu blynyddoedd cynnar (0 – 5 mlwydd oed) yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot





o'r boblogaeth leol




o'r plant 0-15 oed yng byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol

**YN 2022/23**




o ddisgyblion oedran ysgol statudol o gefndiroedd ethnig leiafrifol

Addysgwyd Cymraeg fel iaith gyntaf i

**3,510** o blant

Roedd **5,321** yn gymwys i gael prydau bwyd ysgol am ddim

**MAE GAN 756** o ddisgyblion dros 5 oed iaith gyntaf heblaw Cymraeg neu Saesneg

Adran 5

# PLANT A PHOBL IFANC CASTELL-NEDD PORT TALBOT

## Eu Hiechyd.

- Mae iechyd **97%** o'r plant **0-15** oed yng Nghastell-nedd Port Talbot yn dda, sy'n debyg i'r cyfartaledd Cymreig. (Cyfrifiad 2021, noder: data ar gael mewn grwpiau oedran cyfyngedig)
- Roedd pwysau geni **5.5%** o enedigaethau byw unigol yng Nghastell-nedd Port Talbot yn isel yn 2022. (StatsCymru)
- Roedd **29.9%** o blant **4-5** oed dros bwysau neu'n ordew yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2021/22. (Y Rhaglen Mesur Plant drwy Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, noder: mae'r data ar gael i'r grŵp oedran hwn yn ddiofyn)
- Roedd **95.1%** o blant 1 oed yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cael eu brechiad '6 mewn 1' yn 2022/23, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o **94.5%.** (Adroddiad Blynyddol COVER Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023)
- Roedd **94.2%** o blant **2** oed yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cael eu brechiad MMR1 yn 2022/23, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o **92.9%.** (Adroddiad Blynyddol COVER Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023)
- Roedd **84.3%** o blant **4** oed yng Nghastell-nedd Port Talbot 'yn gyfoes o ran eu hamserlen' yn 2022/23, h.y. wedi cwblhau eu pigiadau atgyfnerthu cyn ysgol '4 mewn 1', pigiad atgyfnerthu Hib / MenC a'r ail ddos MMR erbyn eu bod yn bedair oed, sy'n debyg i'r ffigur ar gyfer Cymru (**84.5%**). (Adroddiad Blynyddol COVER Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023)

# Eu Hiechyd Emosiynol a'u Llesiant.

- Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae llesiant meddyliol pobl ifanc **11-16** oed ychydig yn is (sgôr llesiant cyfartalog **22.8**) na chyfartaledd Cymru (sgôr llesiant cyfartalog **23**) ac mae'n dirywio. (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dangosfwrdd Data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion)
- Yn ogystal, dywedodd **78%** o fyfyrwyr eu bod yn fodlon gyda'u bywyd, roedd hwn yr un fath â'r ffigur cyfartalog cenedlaethol. (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dangosfwrdd Data y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2021-2022)
- Yn genedlaethol, dywedodd **23.3%** o'r rhai **16-24** oed eu bod yn unig, o'u gymharu â **10.5%** o rai **75+** oed. (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Pwy sy'n Unig yng Nghymru?, a gyhoeddwyd 11 Hydref 2021 yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17, 2017/18 a 2019/20)



Adran 5

# PLANT A PHOBL IFANC CASTELL-NEDD PORT TALBOT

## Eu Dysgu.

- Yn CYBLD 2023, roedd gan **15.7%** o boblogaeth ysgolion Castell-nedd Port Talbot Anghenion Addysgol Arbennig o'i gymharu â **13.4%** yn genedlaethol. Nid yw'r ffigurau hyn yn gwbl gynrychioladol o lefel yr angen, gan fod deddfwriaeth newydd wedi cael ei rhoi ar waith ledled Cymru.
- Roedd bron i **20%** (**279**) o ddisgyblion oedran derbyn yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Mae pobl yn gadael addysg â llai o gymwysterau na'r cyfartaledd, gyda **68.7%** â chymwysterau hyd L2 ac uwch, o'i gymharu â **75.3%** yng Nghymru.
- Yn 2021/22 roedd gan Gastell-nedd Port Talbot gyfradd gadael yn gynnar (cymwysterau galwedigaethol) o **11%**, mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (**14%**) ond yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â chyfradd 2018/19 o **3%**. (Llywodraeth Cymru: Ystadegau ôl-16 yn seiliedig ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, casglu data ôl-16, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), data presenoldeb mewn ysgolion)
- Mae mwy o absenoldeb anawdurdodedig (**12%** o sesiynau mewn ysgolion a gynhelir) nag yng Nghymru (**10.5%**). (Llywodraeth Cymru: % gyfartalog y sesiynau absenoldeb anawdurdodedig mewn ysgolion a gynhelir, disgyblion 5-15 oed (blwyddyn academaidd 2022/23))

- Dangosodd arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr Ysgolion Cynradd 2022-2023 Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion Castell-nedd Port Talbot, a gwblhawyd gan **1,414** o ddisgyblion (blwyddyn **3** i flwyddyn **6**), fod **44%** o blant yn dweud eu bod wedi profi bwlio neu seibrfwlio (**27%**) yn yr ychydig fisoedd cyn yr arolwg, sydd ychydig yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol o **48%** a **28%** yn y drefn honno.
- Dangosodd arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr Ysgolion Cynradd 2022-2023 Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion Castell-nedd Port Talbot, a gwblhawyd gan **6,778** o ddisgyblion (blwyddyn **7** i flwyddyn **11**), fod **33%** o blant yn dweud eu bod wedi profi bwlio neu seibrfwlio (**11%**) yn yr ychydig fisoedd cyn yr arolwg, sydd ychydig yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o **32%** a **10%** yn y drefn honno.
- Roedd Arolwg 'Mae Newid yn Dechrau gyda Chi' Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, a gwblhawyd gan **1,173** o blant a phobl ifanc, yn tynnu sylw at hiliaeth fel y brif broblem ymysg pobl ifanc. Mae hiliaeth yn fater diweddar a amlygwyd drwy'r arolwg ac nid yw wedi dod i'r amlwg drwy unrhyw waith ymgysylltu arall. Mae'r Cyngor Ieuenctid wedi dweud bod pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig wedi dioddef hiliaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot a bod aelodau eraill o'r Cyngor Ieuenctid wedi gweld rhai mathau o hiliaeth. Bydd y materion hyn yn cael eu trafod ymhellach gyda'r Cyngor Ieuenctid.

Adran 5

# PLANT A PHOBL IFANC CASTELL-NEDD PORT TALBOT

## Ein Plant a Phobl Ifanc Mwyaf Agored i Niwed.

- Roedd **2,359** (**19%**) o bobl ifanc **16-24** oed yng Nghastell-nedd Port Talbot yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn 2021.
- Roedd **8** o rai **18-24** oed wedi'u bygwth gan ddigartrefedd yn 2021, roedd **42** yn ddigartref ac roedd **12** yn anfwriadol ddigartref ag angen blaenoriaethol. (StatsCymru)
- Ar 31 Mawrth 2022 roedd **295** o blant yn derbyn gofal. (StatsCymru)
- Mae gan **6%** o blant yng Nghastell-nedd Port Talbot gyfrifoldebau gofal.
- Mae **7%** o breswylwyr ifanc Castell-nedd Port Talbot yn hoyw, yn lesbiaid neu'n ddeurywiol ac mae **102** yn ystyried eu rhywedd yn wahanol i'w rhyw ar eu genedigaeth.
- Mae **516** o rai **16-19** oed a **640** o rai **20-24** oed yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael Taliadau Annibyniaeth Personol.
- Cafodd **2.2%** o bobl ifanc blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot eu categoreiddio fel NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), sy'n ostyngiad o **2.4%** yn 2022, a dim ond **0.1%** yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. (Ffigurau NEET Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2023)



Adran 6

# EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER PUM MLYNEDD NESAF





## Cyflwyniad.

Mae'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc yn egluro pam mae pob un o'n pum blaenoriaeth yn bwysig, sut rydyn ni'n gweithio'n wahanol a beth fydd yn digwydd o ganlyniad. Bydd y Grŵp Arwain Plant a Phobl Ifanc yn cydweithio i greu cynlluniau gweithredu cadarn ar gyfer pob blaenoriaeth.

# BLAENORIAETH 1:

## CYNORTHWYO EIN PLANT IEUENGAF I FOD YN IACH AC YN BAROD I DDYSGU

### Yr Hyn Rydym wedi'i Glywed

Dywedodd rhieni a gofalwyr wrthym fod blynyddoedd cynnar eu plant a phobl ifanc yn bwysig iddynt. Mae rhieni a gofalwyr am gael mynediad teg ar gymorth o gyfnod eu beichiogrwydd hyd at flynyddoedd cynnar eu plant, gyda gwasanaethau cydlynus sy'n gweithio â'i gilydd ac sy'n hawdd cael gafael arnynt. Maent am gael mynediad at help ac yn awyddus i feithrin perthnasoedd â theuluoedd eraill yn eu cymunedau, gan greu rhwydweithiau cymorth a all eu helpu i fagu eu plant.

Mae rhieni a gofalwyr am weld eu plant yn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol ac yn dysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer oes o ddysgu. Mae angen cyngor cynnar arnynt, a mynediad at gymorth os bydd gan eu plant anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, anableddau, neu anghenion eraill.

**"Mi wyddom i gyd fod helpu plant yn eu blynyddoedd cynnar yn eu rhoi ar y trywydd cywir, ac y byddant yn elwa yn y tymor hir."**

Ymwelydd Iechyd, Prifysgol Bae Abertawe.

### Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud

- ✓ Byddwn yn dysgu yn sgil ein treialon integreiddio cynnar ac yn gweithio â'n gilydd i greu system gymorth deg sy'n diwallu anghenion ein plant o'r cyfnod cyn eu geni nes byddant yn 7 oed.
- ✓ Byddwn yn gweithio â theuluoedd a chymunedau i'w hannog i ymgysylltu â gofal plant ac addysg gynnar i helpu mwy o blant i baratoi ar gyfer oes o ddysgu.
- ✓ Byddwn yn sicrhau bod teuluoedd yn gwybod am yr help a all wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy a sut i fanteisio arno.

## Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud

- Byddwn yn gweithio â theuluoedd, gofalwyr a sefydliadau partner i helpu plant i symud ymlaen i addysg.
- Byddwn yn parhau i adeiladu ar y rhaglen Plant Iach Cymru i hybu iechyd a llesiant pob plentyn yn eu blynyddoedd cynnar.
- Byddwn yn creu cyfleoedd i blant yn eu blynyddoedd cynnar i ddysgu, cymdeithasu a chwarae yn y Gymraeg.
- Byddwn yn sicrhau bod ein gweithlu blynyddoedd cynnar yn cael yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol sydd ei angen arnynt i helpu plant i wneud cynnydd ac i gyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol.
- Byddwn yn gweithio â rhieni i sicrhau bod llwybr cynnydd clir mewn addysg gyfrwng Cymraeg o ofal plant i ôl-16 oed ar gael i bob teulu.

## Sut Fyddwn Ni'n Gwybod?

- Nifer cynyddol o'r gweithlu blynyddoedd cynnar yn cael cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Cynnydd yn nifer y plant sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae mwy o blant rhwng 4 a 5 oed o fewn pwysau iach.
- Cyfraddau presenoldeb uwch mewn addysg feithrin.
- Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n manteisio ar ofal plant sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.



# BLAENORIAETH 2:

## MAE PLANT, POBL IFANC A'U TEULUOEDD YN CAEL Y CYMORTH CYWIR AR YR ADEG GYWIR GYDA CHANLYNIADAU POSITIF

### Yr Hyn Rydym wedi'i Glywed.

Dywedodd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot y dylai fod yn haws cael gafael ar wybodaeth a help, ac i gael mynediad at wasanaethau cymorth. Maent hefyd am fod yn siŵr y byddant yn gallu cael yr help sydd ei angen arnynt cyn i broblemau fynd yn rhy fawr iddynt a chyrraedd pwynt lle na ellir eu datrys.

Maen nhw wedi dweud wrthym ni fod ofn stigma a chael eu barnu yn gallu eu hatal rhag gofyn am help, a'i bod yn gallu bod yn rhwystredig gorfod dweud eu stori wrth nifer o wasanaethau. Gall rhestrau aros hefyd achosi rhwystredigaeth, gan arwain at fod rhai plant, pobl ifanc a / neu deuluoedd yn 'rhoi'r gorau iddi' gan eu hatal rhag cael yr help sydd ei angen arnynt. Maent am weld gwasanaethau'n gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig sy'n gweithio iddyn nhw.

**"Rwyf yn ddiolchgar iawn am ofal plant Dechrau'n Deg. Mae wedi helpu fy merch i ddysgu chwarae a chymdeithasu. Mae hefyd yn golygu y gallaf eu holi am ddosbarthiadau rhianta a phethau eraill. Yn fy mhrofiad i, os gallwn newid un peth am y system, gwybod pwy i'w holi fyddai hynny, fel na fyddaf yn cael fy symud o un lle i'r llall. Nid wyf eisiau gofyn a gofyn am help a gweld wedyn nad yw ar gael."**

- Rhiant Sengl ac un sydd wedi Goroesi Cam-drin Domestig

### Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud.

- ✓ Bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gallu cael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt gan wasanaethau.
- ✓ Byddwn yn gweithio â'n gilydd, ac yn gwrando ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, i feddwl am ba help a chefnogaeth gynnar sydd ei angen arnynt.
- ✓ Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn gweithio â'i gilydd, mewn partneriaeth, i ddiwallu anghenion ein plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

## Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud.

- Byddwn yn gweithio â rhaglenni a mentrau partneriaeth presennol i chwilio am ffyrdd i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cael help, drwy ddarparu cymorth mewn cymunedau.
- Byddwn yn parhau i edrych sut y gallwn rannu gwybodaeth a data'n well, fel na fydd yn rhaid i bobl sy'n gofyn am help adrodd eu stori fwy nag unwaith.
- Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yn hawdd i'w chanfod, ac yn hawdd ei deall.

## Sut Fyddwn Ni'n Gwybod?

- Plant a phobl ifanc yn cael eu helpu'n effeithiol wrth i wasanaethau rannu gwybodaeth a data perthnasol yn briodol.
- Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cysylltu â gwasanaethau cymorth cynnar ar yr adeg gywir.
- Plant a phobl ifanc yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn ffordd sy'n addas iddynt hwy.
- Ymgysylltu pwrpasol â phlant, pobl ifanc a theuluoedd i sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn diwallu eu hanghenion.
- Gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn cynllunio ar y cyd i ddarparu cymorth wedi'i gydlynu mewn cymunedau.
- Mwy o deuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.



# BLAENORIAETH 3:

## MAE PLANT A PHOBL IFANC YN CAEL ADDYSG SY'N EU HYSBRYDOLI I DDYSGU A DATBLYGU'R SGILIAU SYDD EU HANGEN ARNYNT AR GYFER Y DYFODOL MAENT EI EISIAU

### Yr Hyn Rydym wedi'i Glywed

Mae rhieni a gofalwyr eisiau i'w plant allu manteisio ar gyfleoedd, gallu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael bywyd llwyddiannus ac i werthfawrogi addysg. Rydym yn cydnabod bod heriau o ran cyfraddau presenoldeb a gwahardd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Wrth wrando ar blant a phobl ifanc sy'n egluro pan nad yw plant yn mynychu'r ysgol, roeddent yn crybwyll iechyd meddwl, diwallu eu hanghenion ychwanegol, a bwlio gan gynnwys seibr fwlio.

Mae plant a phobl ifanc eisiau cael eu dysgu, cael eu grymuso i wneud dewisiadau am eu dyfodol a dod o hyd i'r llwybr sy'n gweithio iddyn nhw. Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym fod dewisiadau a chyfleoedd yn brin yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â hyn, gan ysbrydoli ein plant i ddysgu a rhoi sylw i'w pryderon.

**"Mae'n anodd bod yn ofalwr ifanc, nid yw pawb yn deall gofalwyr ifanc a'r heriau emosiynol rydym yn eu profi. Nid yw amgylchedd yr ysgol yn addas i bawb ... Ar hyn o bryd rwyf yn rhoi cynnig ar dipyn o bopeth. Rwyf newydd ddechrau fy TGAU ac rwy'n meddwl ei fod yn gweithio imi. Mae gen i gynllun cymorth gwell, sy'n golygu nad oes yn rhaid imi siarad am yr hyn sydd wedi digwydd drwy'r amser a gallaf ddechrau edrych ymlaen at fy nyfodol."**

- Gofalwr ifanc 16 oed

### Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud.

- ✓ Byddwn yn gweithio â'n gilydd â phlant, pobl ifanc a theuluoedd i gael gwared ar rwystrau rhag cael addysg.
- ✓ Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr y gallu dysgu yn Gymraeg a Saesneg i'w galluogi i gael yr hyder i ddefnyddio'r ddwy iaith yn eu bywydau bob dydd, a sicrhau bod ein plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi cyfathrebu dwyieithog.
- ✓ Byddwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael profiadau o ansawdd uchel er mwyn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau gwybodus.

## Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud.

- Byddwn yn creu llwybrau sy’n glir ac wedi’u cynllunio’n dda i alluogi pobl ifanc i symud ymlaen o ysgol i goleg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Byddwn yn annog mwy o blant i ddysgu Cymraeg, ac yn darparu mwy o gyfleoedd iddynt i ddysgu yn Gymraeg.
- Byddwn yn gweithio â’n gilydd i sicrhau bod y gweithlu’n cael yr hyfforddiant a’r datblygiad proffesiynol sydd ei angen arnynt i ddarparu addysgu sydd o safon uchel ac sy’n gynhwysol.
- Byddwn yn gweithredu Strategaeth Ymgysylltu ag Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot.

## Sut Fyddwn Ni’n Gwybod?

- Llwybrau dysgu effeithiol sy’n hwyluso datblygiad sgiliau cyfathrebu plant a phobl ifanc yn Gymraeg a Saesneg.
- Cyrhaeddiad addysgol uwch pan fydd plant yn gadael ysgol yn 16 oed.
- Nifer uwch o blant a phobl ifanc yn deall y ffactorau a’r penderfyniadau sy’n effeithio ar eu hiechyd corfforol, eu hiechyd meddyliol a’u llesiant emosiynol.
- Nifer uwch o bobl ifanc ôl-16 oed yn parhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Ymgysylltu gwell a phresenoldeb gwell mewn addysg.



# BLAENORIAETH 4:

## MAE PLANT A PHOBL IFANC YN CAEL EU CLYWED, AC MAENT YN CAEL CYFLEOEDD I GYMRYD RHAN MEWN PROSESAU PENDERFYNU

### Yr Hyn Rydym wedi'i Glywed.

Mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrthym mai rhan bwysig o ddod yn oedolyn yw dysgu sut i wneud eich penderfyniadau eich hun a rhannu eich syniadau a'ch safbwyntiau. Maent yn teimlo y dylent allu dweud wrth eu hysgol, eu Cyngor, eu Meddyg Teulu, ac eraill yn eu cymuned os ydynt yn credu y gellid gwneud pethau'n well. Maent am gael rhannu eu profiadau ag eraill i helpu plant a phobl ifanc eraill.

Hefyd, maent am i ni egluro'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud a pham rydym yn eu gwneud, mewn ffordd maent yn ei deall. Maent eisiau dysgu am yr hyn sy'n rhaid inni ei ystyried wrth wneud penderfyniadau. Rhaid i'n gwasanaethau weithio i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd; i wneud hyn, rhaid inni wrando arnynt a phan yn bosibl, gadael iddynt ddylanwadu ar yr hyn rydym yn ei wneud.

**"Mae bod yn rhan o'r cyngor yn rhoi cyfle imi i siarad am yr hyn sydd ei angen ar bobl ifanc. Rwy'n teimlo ein bod yn aml yn cael ein hanghofio am nad oes gennym bleidlais… Mae'n bwysig iawn fod pobl ifanc yn cael llais, yn enwedig yn y pethau sy'n effeithio arnom, nid yn unig yn awr ond yn y dyfodol hefyd, pethau fel ein haddysg a'n hiechyd… Dylem gael gwybod sut a pham mae penderfyniadau'n cael eu gwneud."**

- Aelod o'r Cyngor Ieuenctid

### Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud.

- ✓ Byddwn yn gweithredu ac yn sefydlu'r Strategaeth Cyfranogi ac Ymgysylltu Plant a Phobl Ifanc.
- ✓ Byddwn yn rhoi lle blaenllaw i hawliau plant ym mhob agwedd ar ein prosesau penderfynu, ein polisïau a'n harferion gweithio.
- ✓ Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i gryfhau systemau sy'n galluogi cyfranogiad, gan sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn ganolog mewn prosesau penderfynu.

## Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud.

- Byddwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc nad yw eu lleisiau'n cael gwrandawiad yn aml, a'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, yn cael eu cynrychioli'n ehangach, gan roi iddynt y cymorth sydd ei angen arnynt i gyfranogi.
- Byddwn yn gwella galluedd plant a phobl ifanc i gymryd rhan, rhannu gwybodaeth a phŵer â hwy fel y byddant yn dylanwadu ar brosesau penderfynu.
- Byddwn yn gwella galluedd ein gweithlu, gan sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.
- Byddwn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir gennym yn ddealladwy a hygyrch i blant a phobl ifanc.
- Byddwn yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o werthuso'r cynllun hwn.

## Sut Fyddwn Ni'n Gwybod?

- Prosesau penderfynu, polisïau ac arferion gweithio wedi'u hategu gan ymrwymiad i'r UNCRC sydd wedi'i ddatgan yn glir.
- Mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc i gyd-ddylunio polisïau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc, sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriadau, penderfyniadau a gwerthusiadau.
- Mwy o gyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddylanwadu ar brosesau penderfynu a gwerthuso effaith hynny.



# BLAENORIAETH 5:

## DYLAI POB PLENTYN A PHERSON IFANC GAEL EU CEFNOGI I'W HELPU I FOD YN IACH YN GORFFOROL AC I DEIMLO'N GRYF YN FEDDYLIOL AC EMOSIYNOL

### Yr Hyn Rydym wedi'i Glywed.

Mae plant a phobl ifanc yn poeni am iechyd meddwl gwael ac am effaith hynny ar eu bywydau. Roedd y plant a phobl ifanc y buom yn siarad â hwy'n credu bod y pandemig a'r argyfwng costau byw wedi cael effaith fawr ar iechyd meddwl. Hoffai rhieni a gofalwyr wybod beth allant ei wneud i helpu eu plant i deimlo'n gryf yn feddyliol ac yn emosiynol. I rai plant mae iechyd meddwl gwael yn eu rhwystro rhag ymwneud â'u haddysg, i eraill mae'n eu rhwystro rhag cael hwyl a threulio amser â theulu a ffrindiau. Weithiau nid ydynt yn gwybod sut i ofyn am help, ac mae angen inni ei gwneud yn haws iddynt i ddeall pa help sydd ar gael. Mae'n bwysig hefyd bod pobl sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc yn deall iechyd meddwl a llesiant emosiynol, a'u bod yn sylweddoli pam y gall fod angen help ychwanegol ar blant a phobl ifanc agored i niwed.

Mae iechyd corfforol hefyd yn bwysig i'n plant a phobl ifanc; maent eisiau bod yn ffit ac iach. Fodd bynnag, mae teimlad bod gwneud ymarfer corff yn gostus. Maent am gael mwy o opsiynau ar gyfer y rhai nad ydynt yn hoffi chwaraeon. Mae treulio amser â ffrindiau mewn lle diogel a chael hwyl yn cael ei weld fel rhan bwysig o lesiant emosiynol.

**"Rhaid cymryd ein hiechyd meddwl o ddifrif. Mae angen mwy o helpu ar bobl ifanc – gan fy mod bellach wedi gadael yr ysgol nid wyf erbyn hyn yn gallu siarad â chwnselydd yr ysgol. Mae'r grŵp hwn (grŵp ieuenctid LHDTC) yn helpu os rwy'n teimlo bod angen mwy o help arnaf."**

- Person ifanc LHDTC 19 oed



## Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud.

- Byddwn yn creu llwybrau wedi'u cynllunio'n ofalus ar gyfer plant a phobl ifanc i gael mynediad at amrywiaeth o gymorth llesiant emosiynol ac iechyd meddwl.
- Byddwn yn adeiladu ar gryfderau ein gwasanaethau ieuenctid ac yn darparu ystod eang o gymorth i bobl ifanc hyd at 25 oed.
- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae, gweithgareddau corfforol a hamdden o ansawdd uchel
- Byddwn yn gweithio â phartneriaid i ddatblygu ystod amrywiol o gyfleoedd chwarae a hamdden o safon uchel.
- Byddwn yn cefnogi ein gweithlu, gan gynnwys gwirfoddolwyr, gan ddarparu'r hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol sydd eu hangen arnynt i gefnogi iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc.
- Byddwn yn cydnabod y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar ein plant a'n pobl ifanc, wrth feddwl am gynllunio a darparu gwasanaethau.

## Sut Fyddwn Ni'n Gwybod?

Mae plant a phobl ifanc yn cael help at eu llesiant emosiynol a'u hiechyd meddwl drwy gyfrwng llwybr cymorth clir.

Mae gan blant, pobl ifanc a theuluoedd well dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar eu llesiant emosiynol a'u hiechyd meddwl.

Amrywiaeth gynyddol o gyfleoedd chwarae, gweithgareddau corfforol a hamdden amrywiol, hygyrch ac o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc.

Mae mwy o blant o fewn pwysau iach

Mae mwy o blant a phobl ifanc yn gwneud dewisiadau ffordd iach o fyw.

Adran 7

# SUT Y BYDDWN YN GWYBOD EIN BOD YN CAEL EFFAITH

## Sut y byddwn yn mesur llwyddiant ein cynllun?

### Cyflawni Newid

Bydd y Grŵp Arwain Plant a Phobl ifanc yn cydweithio i gyd-ddylunio a chyflawni cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r pum canlyniad y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn, a fydd yn cael eu llywio gan ddata a drwy gysylltu â'r gymuned, yn datgan sut bydd y partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyrraedd nodau'r cynllun hwn.

### Gwerthuso Effaith

Mae lleisiau plant a phobl ifanc wedi siapio'r cynllun hwn, ac mae'n bwysig eu bod yn cymryd rhan yn y gwaith o werthuso'r blaenoriaethau a'u heffaith. Bydd dangosfwrdd Plant a Phobl Ifanc yn cael ei greu i gofnodi data perfformiad, a chaiff hwn ei rannu gyda'n cymuned i dynnu sylw at y cynnydd at ein hamcanion.

Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gweithredu blaenoriaethau'r cynllun hwn ac rydym wedi creu'r strwythur llywodraethu sydd ei angen arnom i wneud i'r dull hwn weithio. Byddwn yn adeiladu ar y cydweithio cadarnhaol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd rhwng y partneriaid. Byddwn yn sicrhau bod y blaenoriaethau wedi'u gwreiddio yn y ffordd rydym yn cefnogi plant a phobl ifanc ledled Castell-nedd Port Talbot.

### Atebolrwydd

Y Grŵp Arwain Plant a Phobl Ifanc a fydd yn gyfrifol am lwyddiant y cynllun hwn. Bydd y Grŵp yn adrodd ar y cynnydd wrth Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot.



# ATODIADAU

## Atodiad 1

### Ffynonellau Data.

**EIN POBLOGAETH BLANT A PHOBL IFANC**

- Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Stat Xplore: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog 2022/2023
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023

**IECHYD**

- Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- StatsCymru: Genedigaethau unigol byw lle ceir pwysau geni isel, yn ôl ardal 2022
- Rhaglen Mesur Plant drwy Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, sylwch: mae'r data ar gael ar gyfer y grŵp oedran hwn yn ddiofyn
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dangosfwrdd Data y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2021-2022
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dangosfwrdd Data y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2021-2022
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Pwy sy'n Unig yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 11 Hydref 2021 yn seiliedig ar ddata a ddadansoddwyd o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17, 2017/18 a 2019/20

**IECHYD A LLESIANT EMOSIYNOL**

- Dangosfwrdd Data y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2021/2022

**GWERSI A DDYSGWYD**

- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023 (Llywodraeth Cymru: Ystadegau ôl-16 yn seiliedig ar gasglu data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023 (Llywodraeth Cymru: % gyfartalog y sesiynau absenoldeb anawdurdodedig mewn ysgolion a gynhelir, disgyblion 5-15 oed (blwyddyn academaidd 2022/23)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dangosfwrdd Data y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2021-2022
- Arolwg 'Mae Newid yn Dechrau gyda Chi' Cyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot 2023

**GOFAL CYMDEITHASOL**

- Cyngor Castell-nedd Port Talbot: Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai (Data ar gyfer 31 Ionawr 2024)

**EIN PLANT A'N POBL IFANC MWYAF BREGUS**

- StatsCymru: Pobl ag anabledd corfforol/synhwyraidd yn ôl awdurdod lleol, anabledd ac ystod oedran
- StatsCymru: Aelwydydd y darparwyd cymorth ar eu cyfer yn ôl canlyniad, oedran a rhyw StatsCymru: Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad (2022)
- Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Dangosfwrdd Taliadau Annibyniaeth Personol: StatXplore
- Ffigurau Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023

# ATODIADAU

## Atodiad 2

### Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot

| |
|---|
| CBS Castell-nedd Port Talbot |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Cyngor Gwirfoddol Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Tai Tarian |
| Coastal Housing |
| Pobl Group |
| Heddlu De Cymru |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Grŵp Colegau NPTC |
| Cynghorau Tref a Chymuned |
| Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Llywodraeth Cymru |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau |

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

NEATH PORT TALBOT
PUBLIC SERVICES BOARD

M23.116.M.001